



Templed ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Hawliau

Teitl / Darn o waith:	Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)
Rhif SF / LF cysylltiedig (os yw'n berthnasol)	Mae LF/JG/0283/14; LF/JG/0417/14 ac LF/JG/0610/14 yn nodi'r cyfarwyddiadau polisi ar gyfer y Bil
Enw'r Swyddog:	Tîm Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)
Adran:	Cadw, Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Dyddiad:	27/06/2014
Llofnod:	

Byddwch cystal â chwblhau'r ffurflen hon a'i chadw ar gyfer eich cofnodion ar iShare. Efallai y gofynnir ichi ddangos y ddogfen hon yn ddiweddarach i brofi eich bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd o roi sylw dyledus i hawliau plant ee ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, i ddibenion monitro, neu fel gwybodaeth i'w hadrodd i'r Cynulliad.


Ar ôl ei gwblhau, dylech hefyd anfon copi o'r Asesiad ymlaen at Dîm Gweithredu'r Mesur at ddibenion monitro gan ddefnyddio'r blwch postio pwrpasol CRIA@wales.gsi.gov.uk

Os nad yw swyddogion yn sicr ynghylch cwblhau Asesiad neu beidio, dylent bob amser geisio cyngor gan Dîm Gweithredu'r Mesur trwy anfon unrhyw gwestiynau ymlaen i'n blwch postio CRIA@wales.gsi.gov.uk

Efallai y dymunwch groes-gyfeirio gydag Asesiadau Effaith eraill a gyflawnwyd.

Noder. Rhaid cyhoeddi pob Asesiad a wneir yn ôl deddfwriaeth. Bydd pob Asesiad anneddfwriaethol yn cael ei restru ar wefan Llywodraeth Cymru a rhaid iddo fod ar gael ar gais. Caiff Gweinidogion eu hannog, fodd bynnag, i gyhoeddi pob Asesiad a gwblheir.

Chwe Cham at Sylw Dyledus



Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcan(ion)?

Mae bron 30,000 o adeiladau rhestredig, mwy na 4,000 o henebion cofrestredig a bron 400 o barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig a thri safle Treftadaeth y Byd yng Nghymru.

Mae safleoedd hanesyddol wedi llywio hunaniaeth a diwylliant y wlad ac maent yn darparu lleoedd ar gyfer hamdden a dysgu a chyfleoedd ar gyfer swyddi a busnesau.

Mae'r amgylchedd hanesyddol, sy'n rhan hanfodol o economi Cymru, yn cynnal mwy na 30,000 o swyddi ac yn cyfrannu mwy na £840 miliwn at economi Cymru bob blwyddyn.

Bydd Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn rhan o gorff integredig o ddeddfwriaeth, canllawiau a pholisi a fydd yn gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau presennol ar gyfer gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru a'i reoli mewn ffordd gynaliadwy.

Er bod llawer o ddarpariaethau'r Bil yn ymwneud â'r hyn a allai ymddangos, o bosibl, yn ddiwygiadau technegol i'r ddeddfwriaeth bresennol, gyda'i gilydd byddant yn gwneud y canlynol:

- cyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i benderfyniadau a wneir ynghylch yr amgylchedd hanesyddol;
- galluogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i warchod yr amgylchedd hanesyddol yn fwy effeithiol;
- gwella'r systemau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy.

Cyflwynir y Bil i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddiwedd gwanwyn 2015, a dylai gael Cydsyniad Brenhinol ar ddechrau 2016.

Ni fydd Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn effeithio'n uniongyrchol ar blant na phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r amgylchedd hanesyddol yn rhan bwysig o gymunedau Cymru a nod y Bil a mesurau cysylltiedig yw helpu i reoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy fel y bydd yn parhau i ddod â manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ystyrlon i bobl Cymru.

Cam 2. Dadansoddi'r effaith

Er nad yw effeithiau arfaethedig y Bil yn gyfyngedig i blant a phobl ifanc, mae nifer o ganlyniadau cadarnhaol cysylltiedig a fydd yn effeithio ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ledled Cymru. Nod hirdymor y Bil yw diogelu'r amgylchedd hanesyddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

O ran effeithiau anuniongyrchol ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru, bydd gwarchod yr amgylchedd hanesyddol yn effeithiol yn ein helpu i wneud y gorau o dreftadaeth Cymru, drwy gynnig cyfleoedd hamdden, dysgu, swyddi a busnes i drigolion a denu mwy o ymwelwyr i Gymru.

Bydd y cynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) a'r polisi, y cyngor a'r canllawiau cysylltiedig yn cyfrannu at gyflawni'r nodau cyffredin a gaiff eu cynnwys ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yr ydym yn bwriadu ei gyflwyno, yn ogystal ag ategu'r cynigion sy'n cael eu datblygu yn y rhaglen ddeddfwriaethol ehangach, gan gynnwys y Bil Cynllunio (Cymru) a Bil yr Amgylchedd.

Drwy Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) a mesurau cysylltiedig, rydym yn cymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu amgylchedd hanesyddol cyfoethog Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a hyrwyddo ei reoli mewn ffordd gynaliadwy fel y gall barhau i ddarparu'r nifer fawr o fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y mae'n eu cynnig.

Mae barn pobl ifanc yn bwysig i ddatblygu polisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori i fyfyrwyr chweched dosbarth sy'n astudio ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn y gogledd a'r de er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r Bil a mesurau cysylltiedig. Yn hytrach nag ystyried y cynigion yn fanwl, a fyddai wedi bod y tu allan i gwmpas gwybodaeth, profiadau a diddordebau'r rhan fwyaf o bobl ifanc, nod y digwyddiadau oedd codi ymwybyddiaeth y myfyrwyr o'r amgylchedd hanesyddol a chyflwyno rhai o'r materion sy'n ganolog i'w wrthod a'i reoli mewn ffordd gynaliadwy iddynt. Wedyn, gellid casglu eu barn ar bwysigrwydd yr amgylchedd hanesyddol a'r flaenoriaeth y dylid ei rhoi i'w ddiogelu. Cymerodd cyfanswm o 187 o fyfyrwyr o wyth ysgol ran yn y digwyddiadau.

Gan fod cynigion y Bil yn rhai technegol, mae'n anodd nodi sut yr effeithiodd y gweithgarwch ymgysylltu hwn yn uniongyrchol ar gynnwys y Bil. Fodd bynnag, bu'n allweddol i helpu Cadw i feithrin gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae pobl ifanc o'r farn ei fod yn bwysig yn yr amgylchedd hanesyddol. Rydym yn adeiladu ar y gweithgarwch ymgysylltu hwn ac mae'n dylanwadu ar y ffordd rydym yn datblygu gwaith sy'n gysylltiedig â chymhwyster newydd Bagloriaeth Cymru. Mae hefyd yn llywio gwaith o dan y fframwaith archeoleg gymunedol, lle mae Cadw yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn datblygu prosiect o'r enw 'Treftadaeth nas Cerir' gyda chymorth ariannol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Fel rhan o'r prosiect, bydd pobl ifanc, rhwng 18 a 25 oed, yn ymchwilio i themâu gwahanol gorffennol unigryw Cymru tra'n datblygu sgiliau arbenigol ym maes archeoleg.

Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Rhoddwyd sylw priodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ddatblygu Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

Nododd ein hasesiad mai'r erthyglau canlynol o CCUHP yw'r rhai mwyaf perthnasol a'r rhai y mae darpariaethau'r Bil yn effeithio arnynt fwyaf a'u bod yr un mor gymwys i blant a phobl ifanc. Casglwyd barn pobl ifanc fel rhan o'r ymgynghoriad er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu cynigion y Bil.

Erthygl 1 Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.

Erthygl 2 Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.

Erthygl 3 Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Erthygl 4 Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.

Erthygl 12 Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

Parchwyd

Mae barn pobl ifanc yn bwysig i ddatblygu polisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Yn unol â'r agenda cyfranogi a llais disgyblion yng Nghymru, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori fyfyrwyr chweched dosbarth sy'n astudio ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn y gogledd a'r de er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r Bil a mesurau cysylltiedig. Nod y digwyddiadau oedd codi ymwybyddiaeth y myfyrwyr o'r amgylchedd hanesyddol a chyflwyno rhai o'r materion sy'n ganolog i'w warchod a'i reoli mewn ffordd gynaliadwy iddynt. Wedyn, gellid casglu barn y bobl ifanc ar bwysigrwydd yr amgylchedd hanesyddol a'r flaenoriaeth y dylid ei rhoi i'w ddiogelu. Cymerodd cyfanswm o 187 o fyfyrwyr o wyth ysgol ran yn y digwyddiadau.

Cynhwyswyd crynodeb o ganlyniadau'r digwyddiadau hyn yn adroddiad cryno'r ymgynghoriad — <http://wales.gov.uk/consultations/cultureandsport/heritage-bill/?skip=1&lang=cy>. Fe'i hatodir i'r asesiad effaith hwn.

Rhoddodd yr ymarfer syniad da iawn i ni o farn pobl ifanc am yr amgylchedd hanesyddol. Ar ddiwedd y sesiynau nodwyd bod gan Cadw ragor o waith i'w wneud er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn deall yr amrywiaeth o asedau sy'n cael eu hystyried yn yr amgylchedd hanesyddol. Roedd nifer yn deall pwysigrwydd y cestyll a'r adeiladau eiconig yng Nghymru, ond nid oeddent yn deall perthnasedd rhai o'r adeiladau rhestredig neu'r henebion cofrestredig yn eu hardal.

Rhannwyd y sylwadau hyn â chydweithwyr o fewn Cadw sy'n arwain ym meysydd ymgysylltu â phobl ifanc a dysgu gydol oes ac maent yn cael eu defnyddio i ddylanwadu ar waith a wneir i ddatblygu cymhwyster newydd Bagloriaeth Cymru yn y dyfodol. Maent hefyd wedi'u hystyried gan y rhai sy'n arwain ym maes archeoleg gymunedol, lle mae prosiect sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc y bwriedir iddo ddatgelu treftadaeth nas cerir Cymru yn cael ei ddatblygu.

Erthygl 13 Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw ac i eraill.

Parchwyd

Bydd y Bil yn sicrhau ei bod yn haws cael gafeael ar wybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol; caiff

hyn ei hwyluso gan adnodd yn seiliedig ar fapiau a fydd ar gael ar-lein i'r cyhoedd ac a fydd yn cynnwys pob ased hanesyddol dynodedig a chofrestredig statudol. Bydd y Bil hefyd yn rhoi sail statudol i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol (CAHau). Ar hyn o bryd, mae'r cofnodion hyn yn cael eu cadw gan ymddiriedolaethau archeolegol Cymru ac maent yn darparu gwybodaeth a thystiolaeth gynhwysfawr am amrywiaeth eang o asedau hanesyddol mewn ardal benodol. Maent yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol, gofalu amdano a'i ddeall. Gall y cyhoedd weld y cofnodion hyn ar wefan (*Archwilio*) a hefyd drwy ddefnyddio ap a ddatblygwyd yn ddiweddar. Mae hyn yn golygu ei bod yn llawer haws i blant a phobl ifanc gael gafael ar y wybodaeth, a bydd y Bil yn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r CAHau hefyd yn cael eu defnyddio i lunio adnoddau dysgu sy'n galluogi ysgolion unigol i ddefnyddio'r amgylchedd hanesyddol a helpu i feithrin dealltwriaeth o hanes lleol ardal.

Erthygl 27 Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio i ddarparu hyn.

Yn unol â'r Rhaglen Lywodraethu a'r agenda Trechu Tlodi, mae twf a swyddi cynaliadwy yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae'r galw mawr am fesurau cynilo a'r effeithiau andwyol ar yr economi, twf a chyflogaeth, yn cael sgil-effeithiau enfawr ar blant a'u dyheadau, eu disgwyliadau a'u bregusrwydd.

Nododd adroddiad diweddar gan UNICEF fod cysylltiad uniongyrchol rhwng dirwasgiad economaidd a dirywiad o ran lles plant. Mae pobl ifanc yn aml yn dioddef yn enbyd, a ddangosir gan y cynnydd yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant.

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu'n sylweddol at economi'r wlad. Yn ôl gwaith ymchwil diweddar, mae'n cynnal mwy na 30,000 o swyddi ac yn ychwanegu tua £840 miliwn at Werth Ychwanegol Crynswth Cymru. Amcangyfrifwyd bod yr ymwelwyr a ddenir gan yr amgylchedd hanesyddol yn cyfrif am un rhan o bump o gyfanswm gwariant twristiaeth yng Nghymru.

Nod y Bil yw gwarchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru fel y gall cenedlaethau'r dyfodol ei werthfawrogi a dysgu ohono. Os ydym yn deall ac yn gwerthfawrogi hanes ein gwlad, rydym yn fwy tebygol o ofalu am ein dyfodol.

Erthygl 29 Dylai addysg plentyn anelu at ddatblygu parch at ei hunaniaeth ddiwylliannol, ei iaith a'i werthoedd ei hun, at werthoedd cenedlaethol y wlad y mae'r plentyn yn byw ynddi.

Parchwyd

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn bwysig iawn i gymunedau lleol ac yn hanfodol i gynnal traddodiadau a chreu ymdeimlad o le. Os bydd adeiladau hanesyddol yn dirywio ac yn adfeilio gallant ddenu ymddygiad gwrthgymdeithasol a fandaliaeth. Gall adeiladau hanesyddol o ansawdd uchel hefyd fod yn ysgogiad pwerus i feithrin hyder mewn ardal leol a hyrwyddo balchder dinesig. At hynny, gall yr amgylchedd hanesyddol fod yn ganolbwyt i ysgogi cydlyniant cymunedol.

Erthygl 31 Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

Parchwyd

Un o nodau'r Bil yw gwarchod yr amgylchedd hanesyddol a hyrwyddo'r gwaith o'i reoli mewn ffordd gynaliadwy. Gall yr amgylchedd hanesyddol hybu lles cymunedau lleol, a ddiffinnir fel cyflwr corfforol a meddyliol cadarnhaol. Yn benodol, gall wella gweithgareddau hamdden ac adloniant, a all, yn eu tro, wella iechyd, ffitrwydd a lles cyffredinol pobl.

Cam 4. Cefnogi'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog

Er bod y Bil yn dechnegol ei natur ac er na fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar hawliau'r plentyn, mae gwarchod yr amgylchedd hanesyddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn un o ddyheadau pwysig y Bil. Dylai Cadw barhau i adeiladu ar y gweithgarwch ymgysylltu a ddechreuodd ar adeg yr ymgynghoriad er mwyn deall blaenoriaethau a barn pobl ifanc. Bydd hyn, yn ei dro, yn helpu pobl ifanc i werthfawrogi a deall yr amgylchedd hanesyddol yn well.

Mae Cadw yn gwneud gwaith da yn y maes hwn, sy'n cael ei ddatblygu gan y tîm dysgu gydol oes, y tîm archeoleg gymunedol a'r tîm marchnata a digwyddiadau; gall pob un ohonynt gynnig sawl enghraifft o bobl ifanc yn ymgysylltu â'r amgylchedd hanesyddol. Er enghraifft, mae Cadw yn gweithio ar brosiect gyda dau grŵp Cymunedau'n Gyntaf ym Mlaenafon a Chaernarfon, sy'n cynnwys myfyrwyr o brifysgolion lleol yn y gwaith o ddatblygu ffilmiau am Waith Haearn Blaenafon a Chaer Rufeinig Segontium, a gaiff eu dangos mewn lleoliadau lleol yn 2015.

Fel rhan o'r mesurau ehangach i gefnogi'r Bil, mae Cadw yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr Adran Gynllunio ar ddiwygio'r bennod o *Polisi Cynllunio Cymru* sy'n ymdrin â'r amgylchedd hanesyddol a llunio nodyn cyngor technegol (TAN) newydd ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol er mwyn atgyfnerthu a diweddarau'r canllawiau presennol. Bydd cydweithredu o'r fath yn helpu i sicrhau bod Bil yr Amgylchedd Hanesyddol a'r Bil Cynllunio a pholisi a chyngor ategol yn ymgorffori egwyddorion cyffredin, gan annog a chefnogi gwaith datblygu, tra'n rhoi i'r amgylchedd hanesyddol y lefel o ddiogelwch sydd ei angen arno hefyd.

Bydd y cynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) a'r polisi, y cyngor a'r canllawiau cysylltiedig hefyd yn cyfrannu at gyflawni'r nodau cyffredin a gaiff eu cynnwys ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yr ydym yn bwriadu ei gyflwyno, yn ogystal ag ategu'r cynigion sy'n cael eu datblygu yn y rhaglen ddeddfwriaethol ehangach, gan gynnwys y Bil Cynllunio a Bil yr Amgylchedd.

Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad

Dylid cadw tystiolaeth sy'n cadarnhau:

- Sut y cydymffurfiwyd â'r ddyletswydd (**Camau 1-3 uchod**)
- Y dadansoddiad a wnaed (**Camau 1-3 uchod**)
- Y dewisiadau a ddatblygwyd ac a archwiliwyd (**Camau 1- 3 uchod**)
- Sut mae'r canfyddiadau / canlyniadau wedi cael eu cyhoeddi? (**Cam 4 uchod**)
- 'Dweud y stori' o sut y gwnaed yr asesiad a'r canlyniadau (**Cam 4 uchod**)

Mae'r asesiad effaith a'r dogfennau ategol wedi'u cadw ar system gofnodion electronig Llywodraeth Cymru, ac mae'r asesiad effaith ar gael ar-lein yn y cyfeiriad canlynol:
<http://gov.wales/topics/cultureandsport/historic-environment/heritagebill/?lang=cy>

Dogfen fyw yw hon ac fe'i diweddarwyd wrth ddatblygu'r polisi a'r Bil. Mae'r fersiwn hon yn adlewyrchu cynnwys y Bil fel y'i cyflwynwyd i'r Cynulliad ar 1 Mai 2015.

Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen

Fel y nodwyd uchod, dogfen fyw yw hon ac fe'i diweddarwyd wrth ddatblygu polisi'r Bil. Mae'r fersiwn hon yn adlewyrchu cynnwys y Bil fel y'i cyflwynwyd i'r Cynulliad ar 1 Mai 2015.

Caiff ei hasesu a'i diweddarau hefyd er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau a wneir ar ôl cytuno ar unrhyw ddiwygiadau i'r Bil ar Gam 2 o broses graffu'r Cynulliad, a phan fo'n berthnasol wrth roi'r Bil hwn ar waith, ar ôl iddo ddod yn Ddeddf.

Cyllidebau

O ganlyniad i gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, a oes unrhyw effaith ar gyllidebau?

Mae'n bwysig, lle gwneir unrhyw newidiadau i gynlluniau gwario, gan gynnwys lle gwnaed dyraniadau ychwanegol, fod hyn wedi cael ei asesu a'i brofi fel rhan o'r broses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Nac Oes

Rhowch unrhyw fanylion:

Monitro ac Adolygu

A oes angen inni fonitro / adolygu'r cynnig?

Oes

Os yn berthnasol: gosodwch y dyddiad adolygu

Ar gam 3

Gweler y dudalen nesaf am
Restr Gryno o erthyglau'r
CCUHP



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Mae Confederasiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gyfundeb rhyngwladol sy'n gwarchod hawliau dynol plant o dan 18 oed. Ar 16 Rhagfyr 1991, cytunodd Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn ffurfiol i sicrhau bod pob plentyn yn y DU yn cael yr holl hawliau fel y'u rhestrwyd yn y confensiwn.

Caifodd 'Mesur Hawliau Plant a Phobol Ifanc (Cymru) 2011' gefnogaeth unffurddol ar draws y pleidiau pan baswyd ef yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Ionawr 2011. Caifodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 16 Mawrth 2011 a ddech i rym ar 16 Mai 2011.

Mae'n rhoi dyfodol i Wladodogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhywmedigaethau sydd yn y CCUPP a'i brotocolau dewisol.

Mae 54 o arthyglau yn y confensiwn. Mae Erthyglau 43-54 yn ymwneud â sut y dylai cadolion a llywodraethau weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan bob plentyn hawl i'w hawliau. Mae'n wybodaeth a geir yma yn ymdin ag erthyglau 1-42 sy'n cyflwyno sut y dylai plant gael eu trin.

I gael rhagor o wybodaeth am Confederasiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ewch i: Wefan CCUPP Llywodraeth Cymru: www.ccuppgwneudpethauniawn.co.uk

CLIC - y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol i Bobol Ifanc: www.clickonline.co.uk/cym/newyddion

Gellir gweld 'Mesur Hawliau Plant a Phobol Ifanc (Cymru 2011)' ym: <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents>

CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN

www.ccuppgwneudpethauniawn.co.uk

Erthygl 1

Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confederasiwn hwn.

Erthygl 2

Mae'r Confederasiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hi, ei grefydd, ei aliwedd, beth bynnag ymwith ei feddwl neu'n ei ddewad a phia fath bynnag o deulu y daw rhwng.

Erthygl 3

Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Erthygl 4

Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.

Erthygl 5

Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau tauluoddi i gyfarlo ac anwylt eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dygu sut i ddefnyddio'r hawliau'n broddol.

Erthygl 6

Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn gennedl ac yn ddiogel i'w iach.

Erthygl 7

Mae gan bob plentyn hawl i enw a gofrestrwyd yn gyfrifedig, hawl i gennedlwydd a hawl i adnabod ei rieni ac, i'r graddau sy'n bosibl, i ddarlwyn gŵal ganddyn.

Erthygl 8

Dylai llywodraethau barchu hawl plant i enw, cennedlwydd a chyfeirio teulu.

Erthygl 9

Ni ddylid gwasianu plant oddi wrth eu rieni ond yw hyn ar eu lles nhw'u hunain, ar enghraifft eu yw rhannu yn cam-drin neu'n engwyluso plentyn. Mae gan blant y mao eu rhieni wedi gwasianu hawl i geir mewn cyflithad i'r ddau riant, oni fyddai hyn yn niwddio'r plentyn.

Erthygl 10

Dylai tauluoddi sy'n byw mewn gwledydd gwahanol gael yr hawl i symud rhwng y gwledydd hynny fel y gall y rhieni a'r plant gadael mewn cyflithad neu ddiad at ei gilydd fel teulu.

Erthygl 11

Dylai llywodraethau gennedl canuio i gadael plant rhag cael eu cymryd allan o'u gwledydd nhw'u hunain yn anghyfreithlon.

Erthygl 12

Mae gan blant yr hawl i ddewad eu barn ynghyd yn hyn a ddylai ddigwydd pan fo cadolion yn gwnaed ganderfynadau sy'n effeithio arnyh nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

Erthygl 13

Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niwddio lledyn nhw ac i enw.

Erthygl 14

Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredu'n hyn a ffrwyd ac i arfer eu crefydd, cyfryd ag nad ydynt yn cadw pobl orall rhag mwynhau eu hawliau. Dylai rhannu anwylt eu plant yn y modyn hyn.

Erthygl 15

Mae gan blant yr hawl i geidgyfariad ac i ymuno â gneipiau a sefydliadau, ond yw hyn yn cadw pobl orall rhag mwynhau eu hawliau.

Erthygl 16

Mae gan blant yr hawl i beirfwrddwydd. Dylai'r gyfathw eu cadw rhag ymroddio ar eu ffordd o'w, eu hennw da, eu teuluoddi a'u cartref.

Erthygl 17

Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddilymadwy gan y cyfngau torfol. Dylai teulu, radio a chaparau newydd roi gwybodaeth y gall plant ei ddiad ac ni ddylent hybu deunyddiau a allai niwddio plant.

Erthygl 18

Dylai'r ddau riant namu cyfrifoldeb dion fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni trwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gwaithio.

Erthygl 19

Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gŵal priodol, a'u cadw rhag tris, camdriadaeth ac ogwylusod gan eu rieni neu unrhyw un orall sy'n edrych ar eu ddi.

Erthygl 20

Rhaid i bob sy'n barhu eu crefydd, eu diwylliant a'u hachd edrych ar di plant na all eu rhieni ofalu andarynt.

Erthygl 21

Pan fo plant yn cael eu mabwysiadu, yr ystyriaeth gentel yw'r hyn sydd orau iddyn nhw. Dylai'r un rheolau gael eu cynhyrso os yw'r plant yn cael eu mabwysiadu yn y wlad lle y'u gawyd neu'n cael eu cymryd i fyw mewn gwlad arall.

Erthygl 22

Dylai plant sy'n dod i wlad fel fforddusd gael yr un hawliau â phlant a'rweyd yn y wlad honno.

Erthygl 23

Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gŵal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd bawn ac anghyffwrdd.

Erthygl 24

Mae gan blant yr hawl i gael gŵal lledyd o answydd da ac i ddarfu gŵal, bywyd masnach ac anglychoddi gŵal o'r mewn iddyn nhw gadael i'w iach. Dylai gwledydd cyfathw helpu gwledydd tdiad i gyflawni hyn.

Erthygl 25

Dylai sefydlu plant y mae eu hawddusd lled yn hysach na'u rhieni yn gŵalau andarynt gael ei haddolgu'n thesodd.

Erthygl 26

Dylai'r llywodraeth roi mwy o arn ar gyfer plant tauluoddi mewn angen.

Erthygl 27

Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghoniion corffol a meddyddol. Dylai'r llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio darparu hyn.

Erthygl 28

Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai druglydd mewn ysgolion barchu undia dynol plant. Dylai addysg gennedl fod am ddim. Dylai gwledydd cyfathw helpu gwledydd tdiad i gyflawni hyn.

Erthygl 29

Dylai addysg ddarllygu persondriadaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai amog plant i barhu eu rhieni, a'u diwylliant nhw ac orall.

Erthygl 30

Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iach ac arferion eu teuluoddi, p'un ai yw'r rhai yn cael eu rhannu gan ffordd i ybdl neu beidio.

Erthygl 31

Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwareu, ac i ymuno mewn ystad wng o weithgareddau.

Erthygl 32

Dylai'r llywodraeth gadw plant rhag gwarth sy'n beryglu neu a allai amharu ar eu hachyd neu eu haddysg.

Erthygl 33

Dylai'r llywodraeth ddarparu ffordd o gadw plant rhag cyffwrddu peryglus.

Erthygl 34

Dylai'r llywodraeth gadw plant rhag camdriadaeth nyddol.

Erthygl 35

Dylai'r llywodraeth ofalu na ddyl plant eu cipio neu eu gwerthu.

Erthygl 36

Dylai plant gael eu gwarchod rhag gwaithgarech a allai amharu ar eu ddwydd.

Erthygl 37

Ni ddylid trin plant sy'n torri gyfrith yn grolion. Ni ddylid eu rhoi mewn carchar gydag cadolion a dylid eu cadw mewn cyflithad i'u rhieni.

Erthygl 38

Ni ddylai llywodraethau adad i blant dan byrthw oed ymuno i'u ffordd. Dylai plant mewn parhu rhaf gael gwarchodaeth arbennig.

Erthygl 39

Dylai plant sydd wedi cael eu hargwyluso neu eu cam-drin gael help arbennig i adfer eu hunan-baru.

Erthygl 40

Dylai plant a ghuddir o don'r gyfrith ddarllygu help cyfathw. Dylid ddwyddio ddwyddiau o garchar i blant ar gyfer y broddau mwyaf ddiad yn unig.

Erthygl 41

Os yw cyfathwau gwlad arbennig yn gwarchod plant yn well nag erthyglau'r Confederasiwn, yna dylai'r cyfathwau hynny arw.

Erthygl 42

Dylai'r llywodraeth arewdu y Confederasiwn yn hysbys i bob rhant a phlentyn.